**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 1 EBRILL 2021**

**BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd P D Richards yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 fel cofnod cywir.

3. **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL**

   **Penderfyniad:**

   Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

4. **FFRAMWAITH SICRHAU ANSAWDD AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU BYW Â CHYMORTH, ANABLEDDAU DYSGU AC IECHYD MEDDWL YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Gan ystyried yr Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, y dylid rhoi caniatâd i Swyddogion ymgynghori ar y Fframwaith Sicrhau Ansawdd arfaethedig ar gyfer Darparu Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Byw gyda Chymorth Iechyd Meddwl yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I sicrhau bod cynlluniau byw â chymorth cynaliadwy o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion oedolion yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

5. **DOSBARTHU TALIAD £500 LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER GWEITHWYR GOFAL**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

7. **ILDIO GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Hepgor y swm llawn o arian, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod yr Awdurdod yn arfer ei ddisgresiwn o dan Ddeddf Grantiau Tai Adeiladu ac Adfywio 1996: Grant Cyfleusterau i'r Anabl (amodau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu dalu'r grant) - Caniatâd Cyffredinol 2008.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **GRANT CYMORTH SY'N GYSYLLTIEDIG Â THAI (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

9. **GWASANAETHAU YMYRRYD AC ATAL CYNNAR A GOFALWYR (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad preifat.

10. **TREFNIADAU CONTRACT AR GYFER AMRYWIAETH O WASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad preifat.

11. **TREM Y GLYN (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r dyddiad cau diwygiedig ar gyfer Cartref Gofal Preswyl Trem y Glyn, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Rhoi cymeradwyaeth i Swyddogion gynnal trafodaethau gyda'r darparwr y manylir arno yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, i helpu i lywio'r gwaith o ddarparu llety i bobl hŷn yng Nglyn-nedd yn y dyfodol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Er mwyn gweithio gyda sefydliad partner i ddatblygu llety addas i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol tymor hir pobl hŷn sy'n byw yng Nglyn-nedd a chymunedau ehangach Castell-nedd Port Talbot, a sicrhau bod ystod gynaliadwy o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion dinasyddion mwyaf diamddiffyn Castell-nedd Port Talbot.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**